Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiad o wasanaethau troseddau ieuenctid yn

# Sir Fynwy a Thorfaen

Arolygiaeth Prawf EM, Hydref 2022

# Cynnwys


**Rhagair** ........ **3**
**Sgoriau** ........ **4**
**Argymhellion** ........ **5**
**Cefndir** ........ **6**
**Maes un: Darpariaeth sefydliadol** ........ **7**
- 1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth ........ 7
- 1.2. Staff ........ 9
- 1.3. Partneriaethau a gwasanaethau ........ 11
- 1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau ........ 13
- 2.1. Asesu ........ 17
- 2.2. Cynllunio ........ 18
- 2.3. Gweithredu a chyflawni ........ 20
- 2.4. Adolygu ........ 21

**Maes tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys** ........ **23**
- 3.1. Asesu ........ 23
- 3.2. Cynllunio ........ 25
- 3.3. Gweithredu a chyflawni ........ 27
- 3.4. Polisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys ........ 28

**4.1. Ailsefydlu** ........ **30**
- 4.1. Polisi a darpariaeth ailsefydlu ........ 30

**Gwybodaeth bellach** ........ **31**



**Cydnabyddiaeth**

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EM Mike Lane, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chyd-weithwyr o bob rhan o'r arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl heb eu cymorth a'u cydweithrediad.


**Rôl Arolygiaeth Prawf EM**

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid gydag oedolion a phlant.

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol.

Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.


**© Hawlfraint y Goron 2022**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.



Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation.

**Cyhoeddwyd gan:**
Arolygiaeth Prawf EM
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter
@hmiprobation

# Rhagair

Mae’r arolygiad hwn yn rhan o’n rhaglen o arolygiadau o’r gwasanaeth troseddau ieuenctid. Rydym wedi arolygu a sgorio Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen mewn tri maes eang: y trefniadau ar gyfer darpariaeth sefydliadol y gwasanaeth, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sy’n cael eu dedfrydu gan y llysoedd, ac ansawdd y gwaith datrysiadau y tu allan i’r llys.

Yn gyffredinol, mae Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen yn cael sgôr ‘Da’. Fe wnaethom hefyd arolygu ansawdd y polisi a’r ddarpariaeth ailsefydlu, a gafodd ei sgorio ar wahân fel ‘Angen Gwella’.

Canfu ein harolygwyr wasanaeth medrus, gyda chryfderau yn amlwg yn y broses o weithredu a darparu ac adolygu gwaith achos datrysiadau yn y llys, ac wrth asesu, cynllunio a chyflwyno gwaith achos ar draws datrysiadau y tu allan i’r llys. Mae gan y gwasanaeth ddealltwriaeth gref o ymataliad. ac roedd y gwaith o hyrwyddo hyn yn amlwg. Serch hynny, roedd angen gwelliannau mewn elfennau penodol o waith datrysiadau yn y llysoedd, fel asesu diogelwch a llesiant plant, ac wrth gynllunio i reoli a lliniaru risgiau i eraill. Roedd angen i weithgarwch i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â dioddefwyr fod yn fwy cyson hefyd.

Mae trefniadau Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen ar gyfer staffio, partneriaethau a gwasanaethau yn gryfder. Mae'r staff yn llawn cymhelliant, yn brofiadol ac yn canolbwyntio ar blant. Maent yn cael eu goruchwylio’n rheolaidd ac mae ganddynt fynediad at hyfforddiant buddiol a chyfleoedd positif i ddatblygu. Mae gan bartneriaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fynediad at nifer ac ystod eang o wasanaethau o ansawdd, gan gynnwys ymyriadau arbenigol a phrif ffrwd.

Serch hynny, mae angen i’r gwasanaeth wella ei lywodraethu a’i arweinyddiaeth. Cynrychiolir partneriaid statudol ac anstatudol ar Fwrdd Rheoli’r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, ond achlysurol yw presenoldeb rhai aelodau, ac nid oes digon o awdurdod ganddynt i wneud penderfyniadau neu ymrwymo’r adnoddau angenrheidiol. Ochr yn ochr â’r newid diweddar yng nghadeirydd ac is-gadeirydd y bwrdd, mae hyn wedi cael effaith ar ddilyniant a chydlyniant y bwrdd. Gwelsom hefyd ddatgysylltiad rhwng y bwrdd a staff rheng flaen y Gwasanaeth. Serch hynny, cawsom ein calonogi bod cadeirydd newydd y bwrdd yn cydnabod yr heriau hyn ac mae gan y Cadeirydd brofiad gweithredol a gwybodaeth strategol o’r Gwasanaeth yn y gorffennol, y byddant yn eu defnyddio i gryfhau perthnasoedd ac egluro disgwyliadau.

Wrth symud ymlaen, yr her ar gyfer Bwrdd Rheoli y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yw sefydlu aelodaeth a chyfres o drefniadau cyson, cydlynol, i’w alluogi i gyfathrebu gweledigaeth glir ar draws y bartneriaeth ac i randdeiliaid allweddol. Yn ogystal, mae angen i’r Gwasanaeth wella ei ddadansoddi, ei ddealltwriaeth a’i ddefnydd o ddata ar anghyfrannedd, cyfranogiad plant, ailsefydlu a datrysiadau y tu allan i’r llys.

Mae llawer i'w ganmol am Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen a'r bartneriaeth, sy’n cael ei adlewyrchu yn eu sgôr gyffredinol o ‘Da’. Cawsom ein calonogi gan eu hunanasesiad gonest o'r materion sydd angen mynd i'r afael â nhw, a gwnaethant nifer o argymhellion a fydd yn galluogi'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i wella ymhellach.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EM

## Sgoriau

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen**<br>Dechreuodd y gwaith maes ym Mehefin 2022 | | **Sgôr** | **22/36** |
| **Sgôr gyffredinol** | | **Da** | |
| **1.** | **Darpariaeth sefydliadol** | | |
| 1.1 | Llywodraethu ac arweinyddiaeth | **Angen gwella** | |
| 1.2 | Staff | **Da** | |
| 1.3 | Partneriaethau a gwasanaethau | **Da** | |
| 1.4 | Gwybodaeth a chyfleusterau | **Angen gwella** | |
| **2.** | **Datrysiadau yn y llys** | | |
| 2.1 | Asesu | **Angen gwella** | |
| 2.2 | Cynllunio | **Angen gwella** | |
| 2.3 | Gweithredu a chyflawni | **Rhagorol** | |
| 2.4 | Adolygu | **Rhagorol** | |
| **3.** | **Datrysiadau y tu allan i'r llys** | | |
| 3.1 | Asesu | **Da** | |
| 3.2 | Cynllunio | **Da** | |
| 3.3 | Gweithredu a chyflawni | **Rhagorol** | |
| 3.4 | Polisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys | **Angen gwella** | |
| **4.** | **Ailsefydlu**[1] | | |
| 4.1 | Polisi a darpariaeth ailsefydlu | **Angen gwella** | |

[1] Nid yw'r sgôr ar gyfer Ailsefydlu yn dylanwadu ar sgôr gyffredinol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

## Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud saith o argymhellion a fydd, yn ein barn ni, o'u gweithredu, yn cael effaith bositif ar ansawdd gwasanaethau troseddau ieuenctid yn Sir Fynwy a Thorfaen. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau troseddau ieuenctid, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

**Dylai Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen:**

1. adolygu ei aelodaeth, ei rôl a'i swyddogaeth, i wneud yn siŵr bod gan ei gynrychiolwyr yr awdurdod i wneud penderfyniadau ac i ymrwymo adnoddau angenrheidiol
2. gwella ei ddadansoddiad a'i ddefnydd o ddata i siapio darpariaeth strategol a gweithredol
3. datblygu strategaeth ac ymateb sy'n diwallu anghenion merched a oruchwylir gan y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid.

**Dylai Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen:**

4. wella ansawdd asesiadau diogelwch a lles plant mewn achosion o ddatrysiadau yn y llys
5. cryfhau ansawdd y cynllunio wrth gefn mewn gwaith achos datrysiadau yn y llys i reoli'r perygl o niwed i eraill
6. datblygu polisi ailsefydlu unigol a chanllawiau ymarfer ffurfiol, gyda phartneriaid, i gryfhau'r trefniadau presennol.

**Dylai'r Gwasanaeth Prawf:**

7. ddarparu swyddog prawf i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, i gefnogi trosglwyddiadau effeithiol a rheoli risg.

## Cefndir

Fe wnaethom gynnal gwaith maes yng Ngwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen dros gyfnod o wythnos, gan ddechrau ar 20 Mehefin 2022. Fe wnaethom arolygu achosion lle dechreuodd y ddedfryd neu'r drwydded rhwng 21 Mehefin 2021 a 15 Ebrill 2022; datrysiadau y tu allan i'r llys rhwng 21 Mehefin 2021 a 15 Ebrill 2022; ac achosion ailsefydlu a ddedfrydwyd neu a ryddhawyd rhwng 21 Mehefin 2021 a 15 Ebrill 2022. Cynhaliwyd 12 o gyfweliadau hefyd gyda rheolwyr achos.

Mae Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen yn cwmpasu ffiniau dau awdurdod lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Cyngor Sir Fynwy. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi'i leoli yng Nghyngor Sir Fynwy ac yn dod o dan y Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai. Partneriaeth aml-asiantaeth yw Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen. Caiff ei arwain gan reolwr y gwasanaeth, a secondiwyd i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ym mis Ionawr 2019 a'i benodi'n barhaol ym mis Mai 2020. Y Bwrdd Rheoli Lleol sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Caiff ei gadeirio gan y Prif Swyddog dros Ofal Cymdeithasol a Thai (Cyngor Torfaen) a'i is-gadeirydd yw'r Pennaeth Gwasanaethau Plant (Cyngor Sir Fynwy). Ym mis Mawrth 2022, newidiodd y rhai a oedd yn y ddwy swydd hon yn sgil ymddeoliad a dyrchafiad, yn y drefn honno. Mae Sir Fynwy a Thorfaen yn un o dri Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ardal Heddlu Gwent, sy'n cydweithio i gyflwyno hyfforddiant ac i ddarparu gwasanaethau.

Mae staff ac uwch arweinwyr yn ystyried llwyth achosion y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fel un cymhleth. Mae plant yn Sir Fynwy a Thorfaen wedi profi profiadau niweidiol niferus a thrawma yn ystod plentyndod, ac mae materion cyffredin yn cynnwys camfanteisio'n droseddol ar blant, camddefnyddio sylweddau, lles emosiynol gwael a heriau o ran cael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Adeg yr arolygiad, roedd gan Sir Fynwy a Thorfaen raniad o 70 i 30 y cant rhwng datrysiadau y tu allan i'r llys a gorchmynion llys. Er bod niferoedd datrysiadau yn y llys wedi aros yr un peth fwy neu lai, bu gostyngiad yn nifer y datrysiadau y tu allan i'r llys (yn enwedig rhybuddiadau ieuenctid a rhybuddiadau ieuenctid amodol) a chynnydd mewn atgyfeiriadau ataliol. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y bartneriaeth i ymyrryd yn gynharach gyda phlant sydd mewn perygl o gyrraedd y system cyfiawnder troseddol. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi nodi mai plant sy'n cyflawni troseddau treisgar sydd fwyaf amlwg ymhlith y garfan yn y llys a thu allan i'r llys.

Mae'r bartneriaeth Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi nodi nad yw plant du a hil gymysg wedi'u gorgynrychioli yn y nifer cyffredinol o blant sy'n cael dedfryd neu rybuddiad. Merched yw 28 y cant o lwyth achosion y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid o'i gymharu â 13 y cant yn genedlaethol, ac mae nifer wedi cyflawni troseddau treisgar neu ymddygiad ymosodol. Mae plant sy'n derbyn gofal yn cael eu gorgynrychioli.

Mae dangosyddion perfformiad allweddol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn dangos bod gan Sir Fynwy a Thorfaen gyfradd o newydd-ddyfodiaid (FTE) o 121. Gellir cymharu hyn yn fras â chyfradd o 118 yng Nghymru, ond yn is na chyfradd Cymru a Lloegr o 145. Er bod y ffigurau'n dal yn uwch na ffigurau cenedlaethol Cymru a Lloegr, mae aildroseddu am i lawr yn y pedwar chwarter diweddaf.

# Maes un: Darpariaeth sefydliadol

I archwilio darpariaeth sefydliadol, gwnaethom adolygu tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd ymlaen llaw gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, a chynhaliwyd 13 o gyfarfodydd, gan gynnwys gyda staff, gwirfoddolwyr, rheolwyr, aelodau'r bwrdd a staff partneriaethau a'u rheolwyr.

Roedd y canfyddiadau allweddol am ddarpariaeth sefydliadol fel a ganlyn.

## 1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth

| | |
|---|---|
| Mae llywodraethu ac arweinyddiaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cefnogi a hyrwyddo'r broses o ddarparu gwasanaeth ymatebol, o ansawdd uchel, wedi'i bersonoli, i bob plentyn. | Angen gwella |

**Cryfderau:**

- Ceir cynllun strategol ar hyn o bryd, sy'n nodi datganiad cenhadaeth bwrdd partneriaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a chyfres o gamau gweithredu.
- Cadeirydd newydd y bwrdd yw'r Pennaeth Gwasanaethau Plant yn Nhorfaen sydd â phrofiad blaenorol fel uwch reolwr yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Mae'n deall y risgiau a'r sialensiau sy'n wynebu'r Gwasanaeth a'r bartneriaeth ehangach.
- Ceir cylch gorchwyl ar gyfer bwrdd rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, sy'n pennu disgwyliadau rolau a chyfrifoldebau aelodau'r bwrdd.
- Mae cadeirydd y bwrdd, yr is-gadeirydd a rhai aelodau o'r bwrdd yn gysylltiedig â byrddau strategol eraill ar draws y bartneriaeth ehangach.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gysylltiadau ag ystod o grwpiau a meysydd strategol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Yn weithredol, mae gan reolwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gyfrifoldebau arweiniol penodol ac maent yn rhan o grwpiau gweithredol aml-asiantaeth perthnasol.
- Mae'r ddarpariaeth staffio ymhlith partneriaid yn gryfder. Mae yna swyddog heddlu ar secondiad, gweithiwr camddefnyddio sylweddau, nyrs glinigol arbenigol o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), a therapydd iaith a lleferydd.
- Mae sefyllfa ariannol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn sefydlog, gyda thanwariant blynyddol a chronfa iach wrth gefn.

**Meysydd i'w gwella:**

- Nid oes gan bob aelod o'r bwrdd ddigon o awdurdod i ymrwymo adnoddau ac i wneud penderfyniadau.
- Mae prosesau cynefino ar gyfer aelodau newydd o'r bwrdd yn brin o strwythur a ffurfioldeb, ac mae presenoldeb wedi bod yn anwadal ac anghyson yn ystod y 12 mis blaenorol.

- Ceir datgysylltiad rhwng y bwrdd a staff gweithredol y rheng flaen o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, ac nid yw pob aelod o’r bwrdd yn eirioli dros blant y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn effeithiol o fewn eu hasiantaethau eu hunain.
- Mae swydd y swyddog prawf ar secondiad wedi bod yn wag ers dros 10 mis.
- Mae Pennaeth Gwasanaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi rheoli gwasanaeth plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn y gorffennol, ond mae’n ystyried ei fod yn dal i ddysgu natur arbenigol gwaith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
- Mae’r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn dibynnu’n ormodol ar reolwyr gweithredol profiadol y Gwasanaeth; mae hyn yn eu tynnu i mewn i waith a swyddogaethau strategol, yn hytrach na gweithgareddau gweithredol.
- Mae angen adolygu ac ail-alinio llwyth gwaith, rhychwantau rheolaethau a chyfrifoldebau rheolwyr gweithredol, gan nad ydynt yn deg ar hyn o bryd.
- Mae angen dadansoddi data perfformiad yn ehangach ac yn llawnach er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i aelodau'r bwrdd o risgiau ac anghenion plant y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. yn enwedig mewn perthynas ag anghyfrannedd.

## 1.2. Staff

| | |
|---|---|
| Mae staff o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, o ansawdd uchel, wedi'i bersonoli, i bob plentyn. | Da |

**Cryfderau:**

- Mae lefelau staffio yn ddigonol, gyda 21 o'r 27 aelod o staff yn dweud y gellir ymdopi â'u llwyth gwaith.
- Mae'r oruchwyliaeth yn rheolaidd ac yn cael ei hystyried o ansawdd da gan y staff. Mae'n cynnwys goruchwyliaeth ffurfiol yn fisol a mecanweithiau anffurfiol 'drws agored' bob dydd, ac mae staff yn croesawu hynny.
- Mae cynllunio olyniaeth wedi bod yn amlwg drwy gydol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid - gyda dilyniant amlwg o wirfoddoli i waith cyflogedig, ac o rolau ymarferwyr i rolau rheoli.
- Mae prosesau cynefino yn dda, gyda gweithgareddau a chyfleoedd amrywiol i staff newydd.
- Cynigir hyfforddiant amrywiol, sy'n hygyrch ac yn cael ei gefnogi gan reolwyr.
- Caiff staff eu cymell i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, gyda 26 o'r 27 yn ateb yn bositif o fewn yr arolwg staff.
- Mae'r staff yn fedrus ac yn brofiadol, ac yn gallu meithrin perthnasoedd positif gyda phlant er mwyn ymgysylltu â nhw.
- Mae rheolwyr yn cefnogi llesiant staff (yn enwedig materion sy'n ymwneud â Covid-19) ac mae staff yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu gwaith o ddydd i ddydd.
- Mae staff yn cydweithio ac mae rhwydweithiau cefnogaeth cryf ymhlith cymheiriaid ar draws y gwasanaeth.
- Roedd goruchwyliaeth rheolwyr yn effeithiol mewn 100 y cant (chwech o'r chwe achos a arolygwyd) mewn datrysiadau yn y llys a 88 y cant (saith o'r wyth achos) mewn datrysiadau y tu allan i'r llys.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae cwblhau arfarniadau yn wael – mae'r arolwg staff yn dangos bod 15 o'r 26 aelod o staff wedi dweud bod eu harfarniadau naill ai heb ddigwydd neu nad ydynt yn werthfawr. Mae hyn yn cael ei gydnabod fel problem gydag arweinwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
- Mae staff yn dweud bod cysylltiadau gyda Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn wan. Mae ymatebion i'r arolwg staff yn dangos bod dros draean o staff ddim yn ymwybodol o weithgareddau'r bwrdd.
- Nid oes gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid unrhyw ddadansoddiad o ddatblygiad y gweithlu neu ddadansoddiad o anghenion, nac unrhyw gynllun datblygu'r gweithlu ysgrifenedig, ffurfiol.

- Ychydig iawn o drefniadau gwobrwyo a chydnabyddiaeth, gweithgareddau neu gymhellion sydd ar gael i staff.
- Cronfa gyfyng iawn o wirfoddolwyr sydd yna (dim ond tri ar hyn o bryd), er bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wrthi'n recriwtio am wirfoddolwyr newydd adeg yr arolygiad.

## 1.3. Partneriaethau a gwasanaethau

| | |
|---|---|
| Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel yn eu lle, sy'n galluogi darpariaeth ymatebol, wedi'i bersonoli, i bob plentyn. | Da |

**Cryfderau:**

- Ceir dadansoddiad strategol a gweithredol boddhaol o anghenion ymataliad plant y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
- Gall plant gael mynediad cyflym at ystod o wasanaethau a chymorth, a cheir llwybrau penodol ar gyfer darpariaeth gyffredinol, darpariaeth sydd wedi'i thargedu a darpariaeth arbenigol.
- Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid swyddog yr heddlu llawn amser, nyrs glinigol CAMHS llawn amser, swyddog Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth llawn amser, a gweithiwr camddefnyddio sylweddau llawn amser.
- Ceir adnoddau pellach drwy gyfrwng therapydd iaith a lleferydd rhan-amser. Gall ymarferwyr gael mynediad hefyd at seicolegydd sy'n cefnogi'r gwaith o lunio achosion ymhlith plant mwy cymhleth o fewn y garfan.
- Mae gweithwyr ar draws pob rôl yn cydweithio'n dda, yn hwyluso'r broses o ymgysylltu'n effeithiol â phlant ac yn meithrin perthnasoedd positif gyda phlant.
- Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid dri gweithiwr cymorth tymor penodol ychwanegol. Mae dau yn gweithio yn yr Hwb Diogelu Aml-Asiantaeth i sgrinio plant a mynd ar drywydd unrhyw atgyfeiriadau ataliol. Mae gweithiwr arbenigol hefyd yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal ac yn anelu i leihau eu troseddu.
- Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cyfrannu at amrywiaeth o grwpiau a phaneli gweithredol aml-asiantaeth mewnol ac allanol ar gyfer plant yr ystyrir eu bod yn peri risg uchel o niwed i eraill neu lefel uchel o bryderon diogelwch a lles.
- Mae gan reolwyr partneriaethau ddealltwriaeth eang o'r gwaith arbenigol y mae eu staff yn ei wneud gyda phlant y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a cheir goruchwyliaeth reolaidd, goruchwyliaeth ar y cyd a chyfathrebu â rheolwyr timau perthnasol o fewn y Gwasanaeth.
- Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Banel Ailsefydlu. Mae unrhyw blentyn sydd ag anghenion heb eu diwallu (o ddatrysiad cymunedol i'r rhai sy'n gadael y ddalfa) yn gymwys i drafod, ac mae pwyslais penodol ar gynlluniau effeithiol i ymadael yn amlwg.
- Tanlinellodd adborth cadeirydd y fainc ieuenctid ansawdd uchel y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid o fewn y llys ieuenctid.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae'r bartneriaeth Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i gasglu barn plant a theuluoedd sy'n cael mynediad penodol at y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

- Mae swydd ran amser y swyddog prawf ar secondiad (0.5 FTE) wedi bod yn wag ers dros 10 mis.
- Er bod yna bolisi sy'n amlinellu disgwyliadau o ran sut dylai gwasanaethau plant a Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gydweithio, mae staff yn gweld anghysondeb o ran y cymorth a'r gwaith uniongyrchol a gynigir gan wasanaethau plant pan mae’r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gysylltiedig.
- Mae prosiectau gwneud iawn wedi ailddechrau unwaith eto ers y pandemig Covid-19, ond araf fu'r cynnydd oherwydd diffyg argaeledd lleoliadau.

## 1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau

| | |
|---|---|
| Mae gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael ac mae cyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull ymatebol, o ansawdd uchel, wedi'i bersonoli, i bob plentyn. | Angen gwella |

**Cryfderau:**

- Mae llwybrau atgyfeirio yn glir. Ceir cytundebau lefel gwasanaeth a phrotocolau gweithio rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, partneriaid a gwasanaethau allweddol.
- Mae prosesau ar gyfer dysgu gwersi yn eu lle ar draws y bartneriaeth. Caiff adolygiadau dysgu beirniadol eu rhannu ar lefel bwrdd a'u rhoi i staff drwy gyfarfodydd tîm, goruchwyliaeth unigol ac e-bost.
- Drwy gydol y pandemig, mae staff wedi defnyddio ymweliadau cartref a lleoliadau awyr agored eraill mewn ffordd greadigol i wneud gwaith un-i-un.
- Mae staff Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi bod wrthi'n ddyfal yn sicrhau y gall plant gael mynediad at y dechnoleg ddigidol er mwyn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phaneli rhithiol.
- Mae swyddfa'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar y ffin rhwng Sir Fynwy a Thorfaen ac mewn lleoliad canolog i staff. Ni welir plant yn y swyddfa, ond drwy ymweliadau cartref a lleoliadau cymunedol.
- Atebodd tri ar ddeg o blant neu rieni ein harolwg testun, gyda 11 yn canmol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn fawr. Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda phedwar o blant a dau riant, a oedd hefyd yn canmol y gwasanaeth a ddarparwyd gan ymarferwyr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a staff partneriaethau.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae'r polisïau a'r prosesau angenrheidiol yn eu lle; serch hynny, mae angen adolygu rhai ohonynt, ac nid yw nifer ohonynt yn cael eu hasesu'n ddigonol o ran eu heffaith ar grwpiau amrywiol.
- Ceir tystiolaeth gymysg bod systemau perfformiad ac ansawdd yn ysgogi gwelliant.
- Caiff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ei gefnogi gan ddadansoddwr data llawn amser. Serch hynny, ni ddefnyddir y data yn ddigon da, nid oes neb yn berchen ar y data'n ddigonol nac yn ei ddeall yn ddigonol ar draws yr holl bartneriaid, er mwyn nodi bylchau mewn perfformiad neu arferion yn llawn.
- Er bod gweithgareddau fframwaith sicrwydd ansawdd, nid oes dogfen bolisi sicrwydd ansawdd gyd-gysylltiedig, ffurfiol, lle mae prosesau'n glir ac mewn un lle.
- Cafwyd dealltwriaeth eang o anghenion plant, ond nid oedd hyn wedi'i drosi'n gynllun archwilio cynhwysfawr.
- Nid oes gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fynediad TG o fewn y llys ieuenctid, sy'n gallu effeithio ar waith staff. Mae'r problemau hyn wedi'u codi

gydag uwch arweinwyr a’r bwrdd ers sawl blwyddyn, ond nid yw’r broblem wedi’i datrys o hyd.

- Mae ymarferwyr a rheolwyr wedi tynnu sylw at heriau parhaus o ran ailsefydlu lleoliadau cymunedol ar gyfer cyflawni ymyriadau gyda phlant ers i gyfyngiadau’r pandemig gael eu llacio.

## Cynnwys plant a’u rhieni neu ofalwyr

Mae partneriaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i glywed sylwadau plant a theuluoedd sy’n cael mynediad at y Gwasanaeth.

Mae prosesau cyfyngedig ar waith i gasglu barn plant, fel cwblhau arolwg safbwyntiau pan fydd plant yn gorffen eu datrysiad y tu allan i’r llys neu ddatrysiad yn y llys gyda’r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Cynhaliodd y gwasanaeth arolwg penodol hefyd yn ystod mis Mehefin 2020 i ganfod sut roedd plant yn ymdopi â Covid-19. Er bod yr ymatebion yn bositif, yn yr ystyr bod nifer o blant yn credu bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn dal i ddiwallu’r rhan fwyaf o’u hanghenion, fe wnaethom ganfod nad yw’r adborth wrth blant a rhieni/gofalwyr yn cael ei gasglu na’i ddadansoddi’n holistig. O ganlyniad, nid yw'n siapio nac yn llywio strategaeth neu ddarpariaeth weithredol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Ar ein rhan, cysylltodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid â phlant a oedd ag achosion agored adeg yr arolygiad, i gael eu caniatâd i gwblhau arolwg testun. Cyflwynwyd yr arolwg yn annibynnol i'r 21 plentyn a oedd wedi rhoi eu caniatâd, gyda 13 o ymatebion o gymysgedd o blant a rhieni.

Gofynnwyd iddynt sgorio’r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar raddfa o 1 i 10. Rhoddodd wyth person sgôr o 10, pedwar person sgôr rhwng 7 a 9, a rhoddodd un person sgôr o 2.

Dywedodd y plant:

> *“Cyn i fi gael fy rhoi ar y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, ro’n i’n berson o’dd yn creu trwbl, ond bellach rydw i wedi newid fy mywyd.”*

> *“Maen nhw'n cydymdeimlo ac yno os oes gennych chi unrhyw broblem.”*

> *“Rhoddodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid y gefnogaeth a’r arweiniad cywir i fod yn berson gwell.”*

Dywedodd y ddau riant a ymatebodd:

> *“Mae’r gefnogaeth wedi bod mor bwysig i helpu fy hun, fy nheulu a'm mab i fynd ar y trywydd iawn. Dydw i ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi'i wneud hebddyn nhw.”*

> *"Ro’dd X yn grêt gyda fy mab ac yn barod iawn ei gymwynas.”*

Gofynnwyd i blant sgorio’r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar raddfa o 1 i 10 o ran faint roedd wedi eu helpu i gadw allan o drwbl. Rhoddodd bump sgôr o 10, rhoddodd un person sgôr o 9, dau berson sgôr o 8, un person sgôr o 7 a rhoddodd dau berson sgôr o 1.

Dywedodd y plant:

> *"Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi rhoi cefnogaeth a chymorth cyson i fi o ran problemau gyda chyfoedion a chyffuriau."*

> *"Fe wnaethon nhw fy helpu i sylweddoli bod yr hyn wnes i'n anghywir."*

> *"Fe wnaethon nhw i fi sylweddoli pa mor beryglus yw hi i gymryd rhan mewn sefyllfaoedd cythryblus a sut bydd yn gwneud fy mywyd yn waeth."*

Fe wnaethom hefyd gyfweld â phedwar o blant a dau riant, a oedd yn uchel eu parch o'r gwasanaeth a ddarparwyd gan ymarferwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a staff partneriaethau. Dywedodd un plentyn:

> *"Fe wnaeth fy ngweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wirioneddol fy nghefnogi i – ro'dd hi'n gweud gwaith yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, ro'dd hi'n ddi-fai. Trefnodd hi nifer o weithgareddau ac ro'dd gen i amserlen dda – byddai gweithwyr gwahanol yn dod i'm casglu am gwpwl o oriau bob dydd – ro'n nhw'n fy nghadw'n brysur. Dwi'n gallu ffonio fy hen weithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid os bydd ei hangen arna i, a bydd hi'n fy ffonio i er mwyn gweld bod popeth yn iawn. Gall mam ei ffonio hi hefyd. Hoffwn weithio i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, felly dwi'n cael cyngor o ran sut i wneud hynny."*

## Amrywiaeth

- Mae bwrdd rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi dangos rhywfaint o dystiolaeth o'r gwaith i fynd i'r afael ag amrywiaeth ac anghyfrannedd. Serch hynny, nid yw hyn wedi bod yn gyson ac nid yw wedi'i amlygu'n benodol fel blaenoriaeth strategol yng nghynllun strategol cyfredol y Gwasanaeth.
- Mae'r bartneriaeth wedi nodi nad yw plant du a hil gymysg wedi'u gorgynrychioli yn y nifer cyffredinol o blant sy'n cael dedfryd neu rybuddiad.
- Merched yw 28 y cant o lwyth achosion y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, o'i gymharu â 13 y cant yn genedlaethol, ac mae nifer wedi cyflawni troseddau treisiol neu ymddygiad ymosodol. Nid yw'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi canfod y rhesymau am hyn yn llawn eto. Gwelodd yr arolygwyr waith clodwiw yn cael ei wneud gyda merched mewn rhai o'r achosion unigol a arolygwyd.
- Mae plant sy'n derbyn gofal yn cael eu gorgynrychioli. Maen nhw'n 12 y cant o garfan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, o'i gymharu â 1.2 y cant (Sir Fynwy) a 2.3 y cant (Torfaen) o'r boblogaeth 10-17 oed yn gyffredinol. Ceir mentrau i fynd i'r afael â'r gor-gynrychiolaeth hwn. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cyflogi gweithiwr cymorth PCLA (Protocol Plant sy'n Derbyn Gofal), sy'n rhoi hyfforddiant i staff preswyl, gofalwyr maeth a'r heddlu ynglŷn â dad-droseddoli'r garfan hon o blant.
- Er gwaethaf gweithgarwch i gasglu a dadansoddi rhywfaint o'r data ar anghyfrannedd, nid yw'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi datblygu cynllun gweithredu penodol i nodi'r tasgau a'r camau gweithredu strategol a gweithredol allweddol sydd eu hangen.
- Dywedodd Pennaeth Gwasanaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid na chafwyd unrhyw blant sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn llwyth achosion y Gwasanaeth ers dros tair blynedd. Serch hynny, ceir aelod penodol o staff sy'n siarad Cymraeg. At hynny, mae trefniadau ar waith gydag aelod o staff yn yr awdurdod lleol i gefnogi plant sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg.
- O ran proffil staffio, nid yw grwpiau ethnig lleiafrifol yn cael eu cynrychioli yn y gwasanaeth. Er bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn nodi bod hyn yn gymharol debyg i ddemograffeg y boblogaeth gyffredinol (sef 97 y cant yn Wyn Cymreig/Prydeinig), dyma faes lle gellid gwella'r recriwtio.
- Mae data sefydliadol a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn dangos bod 61 y cant o staff yn fenywod. Ceir tri o wirfoddolwyr; dwy fenyw ac un dyn. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wrthi'n recriwtio gwirfoddolwyr ac yn ymwybodol y byddai cynyddu amrywiaeth y grŵp hwn o staff yn fuddiol.
- Mae'r arolwg staff yn dangos, o'r rheini sydd ag angen amrywiaeth, bod 14 o'r 17 yn teimlo bod eu hanghenion amrywiaeth yn cael eu diwallu'n dda iawn neu'n weddol dda.
- Roeddem o'r farn bod rheolwyr achos yn yr achosion a arolygwyd yn effeithiol wrth ystyried anghenion amrywiaeth y plant o ran yr asesu, y cynllunio a'r ffordd y maent yn darparu ac yn gweithredu gwasanaethau.

**Maes dau: Datrysiadau yn y llys**

Fe wnaethom edrych ar chwe dedfryd gymunedol a reolwyd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

## 2.1. Asesu

| | |
|---|---|
| Mae'r asesu yn wybodus, yn ddadansoddol ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'i rieni neu ofalwyr mewn ffordd weithredol. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[2] ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r asesu yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad plentyn? | 83% |
| A yw'r asesu yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | **50%** |
| A yw'r asesu yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 83% |

Roedd asesu'r ffactorau ymataliad yn gyson gryf. Datblygodd staff ddealltwriaeth drylwyr o blant, eu hanghenion amrywiaeth, a'r cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach. Cyflawnwyd hyn drwy gydlynu'n effeithiol ag asiantaethau partner i gael mynediad at wybodaeth a hen asesiadau, a thrwy sicrhau bod plant, a'u rhieni/gofalwyr, yn ganolog i'r broses asesu ym mhob achos. Roedd asesu anghenion a dymuniadau dioddefwyr yn fwy amrywiol, a oedd yn cyfyngu ar gyfleoedd o ran cyfiawnder adferol. Ym mhob un o'r achosion a arolygwyd, gwelsom ddull a oedd yn seiliedig ar gryfderau a rhoddwyd lefelau uchel o sylw i ddeall lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid, a'r tebygolrwydd o ymgysylltu â datrysiad y llys.

Yn y rhan fwyaf o achosion, cytunodd arolygwyr gydag asesiad rheolwyr achos o ddiogelwch a llesiant. Roedd yr asesiadau hyn yn defnyddio gwybodaeth asiantaethau eraill. Serch hynny, roedd anghysondeb a diffygion yn y ffordd roedd y wybodaeth yn cael ei thynnu at ei gilydd a'i dadansoddi. O ganlyniad, nid yw pob asesiad yn adlewyrchu'n ddigonol effaith y materion cymhleth hynny sy'n cynyddu lefel y risg i'r plentyn. Byddai rhai achosion hyd yn oed yn well gyda dull ymchwiliol a myfyriol cliriach ac amlycach o ran asesu diogelwch a llesiant.

Dylai gwaith asesu roi dadansoddiad o sut bydd pobl eraill yn cael eu cadw'n ddiogel lle ceir arwyddion y gallai'r plentyn fod mewn risg o niweidio pobl eraill. Gwelwyd tystiolaeth gyson o hyn mewn achosion o ddatrysiadau yn y llys.  Daeth rheolwyr achos â materion neu ymddygiadau cyfoes a hanesyddol at ei gilydd, a arweiniodd yn ei dro at asesiadau cytbwys a rhesymegol. Gwelodd arolygwyr dystiolaeth fod

[2] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sy'n cael ei rhoi mewn band sgorio, ac mewn print trwm yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael yn yr atodiad data.

rheolwyr achos wedi defnyddio gwybodaeth wrth asiantaethau a ffynonellau eraill, gan gynnwys gofal cymdeithasol, yr heddlu, addysg ac iechyd.

## 2.2. Cynllunio

| | |
|---|---|
| Mae'r cynllunio yn wybodus, yn holistig ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'i rieni neu ofalwyr mewn ffordd weithredol. | Angen gwella |

Mae ein sgôr [3] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar sut i gefnogi ymataliad plentyn? | 100% |
| A yw'r cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | 67% |
| A yw'r cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | **50%** |

Roedd cynllunio i gefnogi ymataliad y plentyn yn gryfder ym mhob un o'r achosion a arolygwyd. Adeiladodd ar yr asesiad o ffactorau ymataliad ac, yn y gorchmynion atgyfeirio, y cytundebau a wnaed yn y paneli. Roedd y plant yn cael eu cynnwys yn llawn yn y cynllunio, fel eu rhieni neu ofalwyr, lle bo'n briodol. Roedd yr achosion a arolygwyd yn amlygu'n gyson y cyd-gynllunio cryf rhwng rheolwyr achos Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a gweithwyr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth. Galluogodd hyn i reolwyr achos nodi a rhoi'r ymyriadau yn eu trefn. Roedd cynllunio i fynd i'r afael ag amrywiaeth y plentyn yn amlwg ym mhob achos, ac roedd hi'n glir bod rheolwyr achos wedi gwneud pob ymdrech i gynllunio ar gyfer anghenion unigol, amgylchiadau personol a chyd-destun cymdeithasol y plentyn.

Roedd cynllunio i hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn yn gryf ac wedi'i lywio'n glir gan asiantaethau eraill, fel gofal cymdeithasol, CAMHS a'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau. Arweiniodd hyn at roi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol ar waith i fynd i'r afael â phroblemau nifer o blant o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Wedi dweud hynny, o ran diogelwch a llesiant, canfu arolygwyr ddiffygion yn ansawdd rhai o'r cynlluniau wrth gefn. Mae hyn yn bwysig, oherwydd dylid cael cynllun gweithredu clir os yw'r risg i'r plentyn naill ai am gynyddu neu leihau. Roedd y cynlluniau wrth gefn yn rhy amwys ac nid oeddent yn nodi'n glir y camau gweithredu neu'r ymatebion digonol i'w cymryd pe bai amgylchiadau'n newid, na phryd. Er gwaethaf y diffygion hyn, roedd ansawdd cyffredinol y cynllunio i gadw'r plentyn yn ddigon diogel yn y mwyafrif rhesymol o achosion.

Roeddem yn falch o weld bod cynllunio i reoli'r perygl o niwed i eraill wedi cynnwys asiantaethau eraill. Serch hynny, er bod enghreifftiau o gynllunio i fynd i'r afael â diogelwch dioddefwyr penodol, nid oedd nifer o achosion yn cynllunio'n ddigonol ar gyfer y rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol i reoli'r risg o niwed y mae rhai plant

[3] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei lywio gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sy'n cael ei rhoi mewn band sgorio, ac mewn print trwm yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael yn yr atodiad data.

yn ei achosi i eraill. Ochr yn ochr â hyn, gall amgylchiadau ym mywyd plentyn newid yn gyflym. Mae angen i reolwyr achos ystyried y potensial ar gyfer newid ym mhob achos fel, pe bai pryderon yn cynyddu, eu bod yn barod ac yn fwy tebygol o ymateb yn effeithiol. O ran diogelu'r cyhoedd, yn y rhan fwyaf o achosion, canfu'r arolygwyr fod diffyg eglurder a manylder yn y cynlluniau wrth gefn o ran camau gweithredu penodol i gadw eraill yn ddiogel.

## 2.3. Gweithredu a chyflawni

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaethau o ansawdd uchel, sydd wedi'u ffocysu'n dda, wedi'u personoli ac wedi'u cydlynu, yn cael eu darparu, sy'n ymgysylltu â'r plentyn ac yn ei gynorthwyo. | Rhagorol |

Mae ein sgôr [4] ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi sut i gefnogi ymataliad plentyn yn effeithiol? | **100%** |
| A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol? | **100%** |
| A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol? | **100%** |

Roedd gweithredu a chyflawni i gefnogi ymataliad plentyn yn ddigonol ym mhob achos a arolygwyd. Canfu arolygwyr lefel uchel o ymgysylltiad wrth blant, a adlewyrchai natur ragweithiol y staff a'u gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd ystyrlon â nhw. Yn y gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, yn benodol Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, roedd rheolwyr achos yn rhoi digon o sylw cyson i roi pethau mewn trefn a'r amserlenni a oedd ar gael. Roedd darparu gwasanaethau yn adlewyrchu amrywiaeth a chyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, cynnwys rhieni/gofalwyr neu berson arwyddocaol arall ym mhob achos. Dyma enghraifft benodol:

**Enghraifft o arfer da**

Mae'r gweithiwr achos wedi gweithio'n galed i chwalu rhai o'r rhwystrau y mae Georgia a'i mam wedi'u hwynebu, yn enwedig o ran eu barn am asiantaethau cyfiawnder troseddol. Roedd y gwaith yn cynnwys ymweliadau cartref gyda'r gweithiwr cymdeithasol a swyddog Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth a defnyddio lleoliadau awyr agored, fel parciau lleol a'r lanfa, a helpodd Georgia i ymlacio a galluogodd ddeialog agored ynglŷn â ffactorau yn ymwneud ag ymataliad. Rhoddodd y rheolwr achos hwb positif yn gyson, gan helpu i feithrin hyder Georgia yn ei gallu i newid, tra'n sicrhau bod ffiniau'n cael eu hatgyfnerthu'n gyson. Er enghraifft, i dynnu sylw at y newidiadau positif roedd Georgia wedi'u gwneud, dangosodd y rheolwr achos lun iddi o Georgia pan oedd yn ifancach, yn edrych yn wan, yn flêr ac o dan ddylanwad sylweddau. Doedd Georgia ddim yn nabod ei hun, ac mae bellach yn defnyddio'r llun i atgoffa ei hun o ba mor bell mae wedi dod.

[4] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei lywio gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sy'n cael ei rhoi mewn band sgorio, ac mewn print trwm yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael yn yr atodiad data.

Nododd arolygwyr fod lefel uchel o gydlynu a chyfnewid gwybodaeth rhwng rheolwyr achos Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a staff partneriaethau, yn fewnol ac allanol. Cadwodd rheolwyr achos gydbwysedd rhwng rhoi pwyslais cryf ar ddiogelwch a lles, a risg o niwed i eraill, a gweithio'n gyson gydag ystod o asiantaethau, fel addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a phrosiectau'r trydydd sector. I gadw pobl eraill yn ddiogel, ystyriodd rheolwyr achos y broses o amddiffyn dioddefwyr go iawn a dioddefwyr posib wrth gyflwyno'r holl achosion o ddatrysiadau yn y llys a arolygwyd.

## 2.4. Adolygu

| | |
|---|---|
| Adolygu cynnydd yn wybodus, yn ddadansoddol ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'i rieni neu ofalwyr mewn ffordd weithredol. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[5] ar gyfer adolygu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | **% 'Ydy'** |
|---|---|
| A yw'r adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn? | 100% |
| A yw'r adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | 100% |
| A yw'r adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **83%** |

Ym mhob achos perthnasol, roedd y gwaith adolygu yn ystyried amrywiaeth y plentyn a'u hamgylchiadau personol a chyd-destun teuluol a chymdeithasol. Cwblhawyd adolygiadau ffurfiol ar adegau allweddol o fewn y drefn ac ar ôl i amgylchiadau newid. Gwelwyd adolygu cyson drwy ddogfennau ysgrifenedig, cofnodi achosion neu rannu gwybodaeth yn rheolaidd rhwng asiantaethau mewn cyfarfodydd a thrafodaethau rheoli achosion o ddydd i ddydd. Roedd ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau wedi helpu i gynnal ymgysylltiad plant ac i sicrhau bod y gwaith a wneir yn effeithiol ac ystyrlon. Roedd yr adolygu yn parhau i ganolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu cryfderau'r plentyn, gwella ffactorau amddiffynnol ac asesu lefelau cymhelliant ac ymgysylltu ym mhob achos perthnasol.

Cwblhawyd adolygiad ysgrifenedig o ddiogelwch a lles ym mhob achos. Roedd y gwaith adolygu yn nodi ac ymateb i newidiadau mewn ffactorau diogelwch a lles, a gwelsom enghreifftiau lle trefnwyd cyfarfodydd aml-asiantaeth i sicrhau dull partneriaeth cyd-gysylltiedig o fynd i'r afael â'r materion i gadw'r plentyn yn ddiogel. Canfu arolygwyr fod adolygiadau a gwblhawyd gan reolwyr achos wedi arwain at yr addasiadau angenrheidiol yn y cynllun gwaith parhaus yn y mwyafrif o achosion. Roedd gan nifer o'r plant a oruchwyliwyd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fywydau cymhleth, a gallai eu hamgylchiadau newid yn gyflym. Mewn nifer o'r

[5] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei lywio gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sy'n cael ei rhoi mewn band sgorio, ac mewn print trwm yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael yn yr atodiad data.

achosion a arolygwyd, roedd cysylltiadau amlwg yn y maes Camfanteisio’n Droseddol ar Blant a Chamfanteisio’n Rhywiol ar Blant ochr yn ochr â defnyddio cydadolygiad rhwng y plentyn, rhiant/gofalwr a gweithwyr CAMHS proffesiynol.

Llywiwyd yr adolygiad gan fewnbwn angenrheidiol asiantaethau eraill i reoli'r risg o niwed i eraill. Canfu'r arolygwyr fod rheolwyr achos yn cwblhau adolygiadau ysgrifenedig yn gyson, a oedd yn cael eu cefnogi drwy weithgarwch panel rheoli risg y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, rhannu cudd-wybodaeth yr heddlu a pherthnasau cryf rhwng gwasanaethau partneriaethau arbenigol a phrif ffrwd mewnol ac allanol. O ganlyniad, gwelsom achosion a oedd yn elwa o newidiadau i ddulliau adrodd, mwy o strwythur a gweithgareddau positif, neu ddyrannu adnoddau ychwanegol yr heddlu, yn unol ag anghenion yr achos.

## Maes tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys

Fe wnaethom arolygu wyth achos a reolwyd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a oedd wedi derbyn datrysiad y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys tri rhybuddiad ieuenctid amodol, un rhybuddiad ieuenctid a phedwar datrysiad cymunedol. Fe wnaethom gyfweld â'r rheolwyr achos mewn saith achos.

### 3.1. Asesu

| | |
|---|---|
| Mae'r asesu yn wybodus, yn ddadansoddol ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'i rieni neu ofalwyr mewn ffordd weithredol. | Da |

Mae ein sgôr [6] ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r asesu yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn? | **63%[7]** |
| A yw'r asesu yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | 75% |
| A yw'r adolygu yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 88% |

Yn y rhan fwyaf o achosion a arolygwyd, roedd arolygwyr o'r farn bod yr asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn, gan nodi dylanwadau positif a negyddol. Cwblhawyd asesiadau AssetPlus ar gyfer holl ddatrysiadau y tu allan i'r llys, a ddefnyddiwyd i gasglu a dadansoddi gwybodaeth o gyfweliadau â phlant a'u rhieni neu ofalwyr. Roedd gallu rheolwyr achos y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i gael gwybodaeth wrth asiantaethau allweddol mewn perthynas ag ymataliad yn gryfder. Rhoddodd yr asesiadau ar gyfer y panel datrysiadau y tu allan i'r llys ddealltwriaeth dda o'r plentyn, eu hagweddau a'u cymhelliant dros droseddu. Serch hynny, ni wnaeth rheolwyr achos ystyried cyfleoedd am gyfiawnder adferol yn ddigonol mewn hanner o'r achosion a arolygwyd, ac mewn rhai asesiadau, ni roddwyd sylw digonol i unrhyw rwystrau strwythurol a oedd yn wynebu'r plentyn.

Roeddem o'r farn y gellid gwella'r asesiad o ddiogelwch a lles plentyn ymhellach drwy gynnwys gwybodaeth wrth asiantaethau eraill yn fwy cyson, lle bo'n berthnasol. Mae rheolwyr achos y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn effeithiol wrth hwyluso'r broses o ymgysylltu a meithrin perthnasoedd positif â phlant, a oedd yn caniatáu iddynt ystyried ffactorau cymdeithasol, emosiynol a chorfforol perthnasol, fel ymlyniadau, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a risgiau gan eraill. Ym mhob achos, cafwyd cofnod ysgrifenedig clir o lesiant y plentyn a sut i'w cadw'n ddiogel.

Defnyddiodd yr asesiadau wybodaeth berthnasol, ac yn y rhan fwyaf o achosion, ystyriwyd pwy oedd yn debygol o fod mewn perygl o ymddygiad y plentyn,

[6] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei lywio gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sy'n cael ei rhoi mewn band sgorio, ac mewn print trwm yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael yn yr atodiad data.

[7] Defnyddiodd y panel sgorio ddisgresiwn proffesiynol i roi sgôr 'Da' i'r safon gyffredinol.

rheolaethau mewnol ac allanol, a natur unrhyw risg a pha mor uniongyrchol yw'r risg. Ym mhob achos a arolygwyd, defnyddiodd rheolwyr achos y Gwasanaeth ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, i lywio eu barn eu hunain.

## 3.2. Cynllunio

| | |
|---|---|
| Mae'r cynllunio yn wybodus, yn ddadansoddol ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'i rieni neu ofalwyr mewn ffordd weithredol. | Da |

Mae ein sgôr [8] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | **% 'Ydy'** |
|---|---|
| A yw'r cynllunio yn canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn? | 88% |
| A yw'r cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | 88% |
| A yw'r cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **63%**[9] |

Roedd cynllunio i fynd i'r afael ag ymataliad yn gyson dda. Roedd y gwaith a gynlluniwyd yn gymesur yn y rhan helaeth o'r achosion a arolygwyd a gellid eu cyflawni o fewn amserlen datrysiadau y tu allan i'r llys. Heblaw un o'r achosion a arolygwyd, roedd rheolwyr achos wedi cynnwys camau gweithredu ar yr holl feysydd a gwasanaethau allweddol i gefnogi ymataliad a rhoi'r rheini mewn trefn yn briodol. Roedd cynllunio ar gyfer lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid yn gryfder, felly hefyd y cynllunio i atgyfnerthu a datblygu ffactorau amddiffynnol y plentyn. Serch hynny, o'r achosion hynny lle'r oedd dioddefwr uniongyrchol, gwelwyd bod gweithgaredd cynllunio ar gyfer gwaith adferol yn wannach. Roedd y prif ffactorau ymataliad a nodwyd yn cynnwys: camddefnyddio sylweddau, ffordd o fyw, iechyd meddwl, a hunaniaeth. Llwyddodd rheolwyr achos i daro cydbwysedd da rhwng ymyriadau i gefnogi ymataliad a'r angen i gwblhau gwaith penodol sy'n ymwneud ag ymddygiad troseddol.

Ym mhob un o'r achosion perthnasol heblaw un, cafwyd cynllunio digonol i gadw plant yn ddiogel. O'i wneud yn dda, cafwyd gwaith aml-asiantaeth cryf, a oedd yn sicrhau bod cynllun y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cyd-fynd â chynlluniau eraill. Roedd arolygwyr o'r farn bod y rhan fwyaf o gynlluniau plant yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn ddigonol, fel camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael a gwytnwch emosiynol. Gwnaed atgyfeiriadau priodol at asiantaethau allweddol fel gofal cymdeithasol, CAMHS a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau o ganlyniad.

Fe wnaeth rheolwyr achos y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gynnwys asiantaethau eraill yn eu prosesau cynllunio ym mhob achos perthnasol. Cafodd plant a oedd yn destun datrysiadau y tu allan i'r llys a'u hasesu fel rhai sydd o risg uchel o niweidio eraill, eu rheoli drwy drefniadau panel rheoli risg y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Serch hynny, fe wnaethom ganfod bod y cynllunio'n amrywio o ran mynd i'r afael â'r pryderon a'r risgiau penodol sy'n ymwneud â dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr

[8] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei lywio gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sy'n cael ei rhoi mewn band sgorio, ac mewn print trwm yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael yn yr atodiad data.

[9] Defnyddiodd y panel sgorio ddisgresiwn proffesiynol i roi sgôr 'Da' i'r safon gyffredinol.

posib. Ochr yn ochr â hyn, gall amgylchiadau ym mywyd plentyn newid yn gyflym. Rydym yn cydnabod yr angen am gynllunio cymesur mewn datrysiadau y tu allan i'r llys lle gallai ymyriadau fod yn fyr, ond byddem wedi disgwyl gweld cynllunio wrth gefn manylach yn rhai o'r achosion a arolygwyd gennym. Mae cynllunio wrth gefn i reoli diogelwch y cyhoedd yn bwysig a dylai fod cynllun gweithredu clir os byddai risg y plentyn o achosi niwed i eraill yn cynyddu neu'n lleihau.

## 3.3. Gweithredu a chyflawni

| | |
|---|---|
| Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, wedi'u ffocysu'n dda, wedi'u personoli ac wedi'u cydlynu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i gynorthwyo. | Rhagorol |

Mae ein sgôr [10] ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw darparu gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn? | **88%** |
| A yw darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn? | **88%** |
| A yw darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill? | 100% |

Roedd darparu gwasanaethau i gefnogi ymataliad plant yn gyson dda, gan adeiladu ar yr asesiadau a'r cynlluniau a wnaed. Roedd lefel uchel o ymgysylltu a chydymffurfio ag ymyriadau, a oedd yn wirfoddol gan fwyaf. Dangosodd rheolwyr achos ddyfalbarhad wrth ddenu cefnogaeth plant a'u rhieni neu ofalwyr. Fe wnaethant baru ymyriadau gydag anghenion plant ac arddulliau dysgu ac ystyriwyd eu hamrywiaeth ac ymrwymiadau eraill. Cryfder allweddol oedd ansawdd y gweithgaredd o fewn, ac yn dilyn, y panel ailsefydlu. Mae gan y fforwm hwn gylch gwaith eang ac mae'n cynnwys cynlluniau ymadael ar gyfer unrhyw anghenion sydd heb eu diwallu i bob plentyn (gan gynnwys y rheini ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys). Gwelwyd sawl achos lle roedd plant wedi'u cysylltu'n effeithiol â gwasanaethau prif ffrwd neu wedi gallu cael mynediad at gymorth gwirfoddol pellach wrth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac asiantaethau partner allweddol, gan gynnwys llety, addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, iechyd, camddefnyddio sylweddau, a gwasanaethau teulu neu rianta.

Roedd gweithredu a chyflawni i gefnogi diogelwch a lles plant yn amlwg drwy gydol yr achosion a arolygwyd. Rhoddodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid bwyslais cryf ar ddiogelwch a lles, gan weithio'n gyson gydag ystod o asiantaethau a sefydliadau i gynnig pecynnau cymorth cydlynol. Gwelsom waith da gan y rheolwyr achos a gweithwyr arbenigol eraill yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd rheolwyr achos yn eirioli ar ran plant mewn cyfarfodydd hybiau diogelwch aml-asiantaeth, yn mynychu cyfarfodydd Camfanteisio ar Blant Aml-asiantaeth (MACE) ac yn gwneud atgyfeiriadau prydlon i wasanaethau arbenigol a phrif ffrwd fel CAMHS, Therapi Iaith a Lleferydd a chamddefnyddio sylweddau.

Roedd rôl asiantaethau eraill ar draws y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn amlwg ac wedi'i gydlynu'n dda, yn enwedig lle'r oedd materion yn ymwneud â risg gwirioneddol neu risg bosib o niwed i eraill. Gwelsom dystiolaeth gref o blant yn cael eu trafod yn nhrefniadau'r panel rheoli risg ac ymyriadau i reoli diogelwch pobl eraill. Yn y mwyafrif llethol o achosion, roedd yr arolygwyr o'r farn bod rheolwyr achos yn rhoi sylw i ddiogelu dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posib.

[10] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei lywio gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sy'n cael ei rhoi mewn band sgorio, ac mewn print trwm yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael yn yr atodiad data.

## 3.4. Polisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn hyrwyddo datrysiadau ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy. | Angen gwella |

Fe wnaethom hefyd arolygu ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, drwy ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. Roedd ein canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

**Cryfderau:**

- Ceir polisi datrysiadau y tu allan i'r llys yng Ngwent, sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau, darparu a chyflawni datrysiadau y tu allan i'r llys.
- Mae'r polisi datrysiadau y tu allan i'r llys yn cael ei ategu gan broses ataliol a nodiadau canllaw, sy'n amlinellu'r gwahaniaeth rhwng gwaith ataliol, datrysiadau cymunedol a datrysiadau y tu allan i'r llys.
- Mae'r fframwaith datrysiadau y tu allan i'r llys yn ymgorffori dull dwy haen. Ceir hyblygrwydd yn y broses o wneud penderfyniadau mewn datrysiadau y tu allan i'r llys a chaiff pob achos ei ystyried yn unigol.
- Canfu arolygwyr bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn rhagweithiol iawn wrth ymgysylltu â phlant a theuluoedd cyn iddynt dderbyn datrysiad y tu allan i'r llys.
- Mae'r holl ymyriadau a'r gwasanaethau sydd ar gael i blant ar orchmynion statudol ar gael i'r rhai sy'n derbyn datrysiad y tu allan i'r llys.
- Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gweithredu panel ailsefydlu, sy'n gweithredu fel arena aml-asiantaeth i gefnogi'r broses o gynllunio ymadael ar gyfer plant sydd wedi cwblhau datrysiad y tu allan i'r llys.
- Mae gan Gwent banel datrysiadau y tu allan i'r llys y mae Pennaeth Gwasanaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ei fynychu.
- Mae achosion o ddatrysiadau y tu allan i'r llys sy'n cael eu hasesu naill ai fel risg uchel o niwed, diogelwch a lles, neu aildroseddu yn cael eu cyfeirio, a'u rheoli, drwy broses panel rheoli risg y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid; felly maent yn derbyn yr un trosolwg a phroses ag achosion ar ôl achos llys.

**Meysydd i'w gwella:**

- Nid yw'r polisi datrysiadau y tu allan i'r llys yn manylu'n benodol ar sut i fynd i'r afael ag amrywiaeth ac anghyfrannedd.
- Dylai aelodau panel y biwro gynnwys yr asiantaethau hynny sy'n canolbwyntio ar ddiogelu a lles plant yn ogystal â'r rheini sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.
- Er bod rhai o adroddiadau perfformiad y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cael eu cynhyrchu mewn perthynas â datrysiadau y tu allan i'r llys, nid ydynt yn arwain at ddadansoddiad digonol o waith datrysiadau y tu allan i'r llys.
- Mae uwch arweinwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cydnabod bod angen gweithgarwch bwrdd a gwasanaethau ehangach, i ddatblygu cynllun gweithredu

anghyfrannedd ac i siapio dadansoddiad a gwerthusiad manylach o ddatrysiadau y tu allan i'r llys.

- Nid yw'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn casglu safbwyntiau plant yn ddigonol sydd wedi mynychu'r clinig datrysiadau cymunedol neu'r Biwro.

# 4.1. Ailsefydlu

| 4.1. Polisi a darpariaeth ailsefydlu | |
|---|---|
| Ceir gwasanaeth ailsefydlu o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n gadael y ddalfa. | Angen gwella |

Fe wnaethom arolygu ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd yn eu lle ar gyfer gwaith ailsefydlu, drwy ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. I ddangos y gwaith hwnnw, fe wnaethom arolygu un achos a reolwyd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a oedd wedi derbyn dedfryd o garchar. Roedd ein canfyddiadau allweddol fel a ganlyn.

**Cryfderau:**

- Ceir llwybrau atgyfeirio ac ymyrraeth clir a hygyrch mewn perthynas â meysydd allweddol fel llety, Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, ac iechyd.
- Mae'r broses o rannu gwybodaeth a chyfathrebu rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'r ystâd ddiogeledd yn gryf, yn gilyddol ac yn gyflym.
- Mae'r cydweithio a'r perthnasoedd rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac asiantaethau partner allweddol (fel gofal cymdeithasol) yn aeddfed ac yn gydweithredol, sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer ailsefydlu plant.
- Mae staff partneriaid y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (fel y gweithiwr camddefnyddio sylweddau a'r swyddog Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth) yn gweithio'n dda gyda'u cyfoedion yn yr ystâd ddiogeledd, sy'n arwain at barhad perthnasoedd ac ymyriadau ar gyfer plant.
- Mae rheolwyr achos y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid sy'n cynnal achosion ailsefydlu yn brofiadol ac yn hyderus gyda gwaith o'r fath.
- Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gweithredu panel ailsefydlu misol, wedi'i gadeirio gan reolwr gweithredol y Gwasanaeth. Mae'n cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ac yn caniatáu trafodaeth, cyd-gynllunio ac adolygu achosion ailsefydlu unigol er mwyn sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu.
- Roedd diogelwch a lles plant yn cael eu rheoli'n dda, a'u risg i eraill, drwy gyfarfodydd rheoli risg mewnol ac aml-asiantaeth ychwanegol.

**Meysydd i'w gwella:**

- Nid oes polisi adsefydlu ysgrifenedig sy'n ffurfioli'r gweithdrefnau a'r prosesau ailsefydlu.
- Nid oes gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ddogfen ganllaw benodol a manwl i staff ar arferion y ddalfa ac adsefydlu.
- Mae angen i ddata a gasglwyd gael ei gydlynu a'i ddadansoddi'n well er mwyn siapio a datblygu'r ddarpariaeth ailsefydlu ymhellach.
- Nid oes pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ailsefydlu penodol.
- Nid yw staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gwybod digon am rôl swyddog cyswllt â dioddefwyr y gwasanaeth prawf cenedlaethol.

- Dylid defnyddio lleisiau plant a'u rhieni a'u defnyddio i lywio'r adolygiad o wasanaethau ailsefydlu.

## Gwybodaeth bellach

Gellir dod o hyd i'r canlynol ar ein gwefan:

- data arolygu, gan gynnwys methodoleg a ffeithiau cyd-destunol ynglŷn â'r system cyfiawnder ieuenctid
- rhestr o dermau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.